FSPIFP01

Cyfleu ymarfer ac egwyddorion bancio Islamaidd i gwsmeriaid a chydweithwyr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfleu ymarfer ac egwyddorion bancio Islamaidd i gwsmeriaid a chydweithwyr. Mae'n cwmpasu'r cymwyseddau allweddol i weithio gyda systemau a chynnyrch bancio Islamaidd. Mae contractau Islamaidd mewn gwasanaethau ariannol yn cael eu darparu mewn banciau Islamaidd ac mewn rhai sefydliadau ariannol confensiynol ymhlith gwasanaethau eraill.  Yn y naill achos neu'r llall, os ydych chi'n delio gyda'r gwasanaethau a'r cynnyrch hynny, rhaid i chi fod mewn sefyllfa i rannu eich dealltwriaeth gyda chwsmeriaid a chydweithwyr. Datblygwyd y safon i gydymffurfio â chyllid Islamaidd, a chael ei defnyddio yn y cyd-destun hwnnw. Y bwriad yw ei bod yn eistedd ochr yn ochr â'r safonau cenedlaethol galwedigaethol a gymhwyswyd mewn cyd-destun bancio adwerthu confensiynol. Bydd angen i chi ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol, gan roi sylw i fanylion sy'n hollbwysig i'ch gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Disgrifio i gwsmeriaid neu gydweithwyr nodweddion allweddol y canllawiau a'r awdurdod ar gyfer bancio Islamaidd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr pam mae dulliau confensiynol o ennill llog wedi'u gwahardd mewn bancio Islamaidd
3. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr pam mae ansicrwydd diangen a hapfasnachu wedi'u gwahardd mewn bancio Islamaidd
4. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr sut mae banc Islamaidd yn partneru gydag unigolyn i ddarparu cyllid hirdymor er mwyn prynu ased cyfalaf
5. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr sut mae banc Islamaidd yn partneru gydag entrepreneur i ddarparu cyllid ecwiti hirdymor ar gyfer busnes
6. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr sut mae banc Islamaidd yn contractio gyda busnes i ddarparu cyllid tymor byr ar gyfer masnach
7. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr sut mae banc Islamaidd yn contractio gyda sefydliad neu unigolyn i ddarparu cyllid prydlesu
8. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr sut mae banc Islamaidd yn partneru gydag entrepreneuriaid i godi cyllid ar ffurf elfennau sy'n cyfateb i fondiau
9. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr sut mae sefydliad cyllid Islamaidd yn llunio contract ar gyfer darparu cyllid buddsoddi
10. Esbonio wrth gwsmeriaid neu gydweithwyr rôl bwrdd goruchwylio Sharia'a wrth gymeradwyo contractau ariannol
11. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Arwyddocâd y ffynonellau cyfreithiol sy'n darparu sylfaen ar gyfer egwyddorion cyllid Islamaidd
2. Nodweddion allweddol canllawiau ac awdurdod sy'n ymwneud â materion ariannol Islamaidd
3. Pwysigrwydd addasu eich esbonio ynghylch bancio Islamaidd wrth eu hegluro i gwsmeriaid neu gydweithwyr
4. Pam mae riba yn waharddedig
5. Beth yw'r diffiniad o gharar a maisir a pham maent yn waharddedig
6. Pa nodweddion ac asedau all olygu bod trafodion ariannol yn cael eu gwahardd fel rhai anfoesegol
7. Y prif ffynonellau crefyddol y mae bancio Islamaidd wedi'i seilio arnynt
8. Y mathau o asedau y gellir eu hystyried fel offerynnau buddsoddi anfoesegol
9. Sut mae cyfrifon banc yn gweithredu mewn bancio Islamaidd
10. Contractau Mudaraba a sut maen nhw'n darparu ffurf amgen ar gyfrif adnau
11. Contractau Istisn'a a sut maen nhw'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau busnes
12. Contractau Musharaka a sut maen nhw'n darparu cyllid ecwiti ar gyfer busnes
13. Contractau Murabaha i ddarparu cyllid heblaw ecwiti ar gyfer busnes
14. Contractau Ijara a sut maen nhw'n darparu cyllid prydlesu
15. Egwyddorion sukuk a'r farchnad bondiau Islamaidd
16. Rôl bwrdd goruchwylio sharia'a yn llywodraethiant corfforaethol banc Islamaidd
17. Deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sy'n effeithio ar eich busnes
18. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn arddangos uniondeb, tegwch a chysondeb wrth ddefnyddio eich gwybodaeth
2. Rydych yn esbonio pethau fel bod eraill yn deall

FSPIFP01

Cyfleu ymarfer ac egwyddorion bancio Islamaidd i gwsmeriaid a chydweithwyr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPIFP01 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Cyfrifon Banc |
| **Geiriau Allweddol** | bancio Islamaidd; cyfraith sharia'a; cyfathrebu; cwsmeriaid; cydweithwyr; cynnyrch; egwyddorion; ymarfer; ffynonellau crefyddol; cyllid ecwiti; prydlesu; bwrdd goruchwylio |